



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymru'n Un

Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru

*Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid
Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol*

Cynnwys

Rhagair

1. Rhaglen Flaengar ar gyfer Cymru	t.5
2. Cenedl Gref a Hyderus	t.6
3. Dyfodol Iach	t.8
4. Cymdeithas Lewyrchus	t.13
5. Cymunedau Byw	t.16
6. Dysgu i Fyw	t.21
7. Cymdeithas Deg a Chyfiawn	t.26
8. Amgylchedd Cynaliadwy	t.30
9. Diwylliant Cyfoethog ac Amrywiol	t.34
10. Trefniadau Llywodraethu	t.39

RHAGAIR

Pleser a thestun balchder inni fel arweinwyr ein dwy blaid yw cymeradwyo'r cytundeb hwn sy'n cynnig rhaglen flaengar, sefydlog ac uchelgeisiol ar gyfer llywodraethu Cymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Rydym yn frwd o blaid gwella bywydau pobl Cymru a gwneud ein gwlad yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi.

Rydym yn cydnabod bod pobl Cymru, ar y trydydd o Fai, wedi gofyn am lywodraeth sy'n seiliedig ar gonsensws blaengar. Wrth lunio cytundeb i weithio gyda'n gilydd, rydym yn cydnabod bod hon yn foment hanesyddol ac arwyddocaol o ran llywodraethu Cymru.

Mae'r rhaglen hon yn ffrwyth cyfnod o drafod a negodi dwys o fewn byr amser. Bu'n rhaid wrth ddewrder yn y trafod gan fod hwn yn gam mor hanesyddol ac yn gyfnod o gyfaddawdu i'n dwy blaid, a chan fod sicrhau llywodraeth sefydlog wedi golygu canfod tir cyffredin. Yn anad dim mae wedi golygu - a bydd yn golygu - aeddfedrwydd newydd ar y ddwy ochr. Mae'r daith yr ydym yn cychwyn arni yn cynnig her i'n pleidiau ac i bawb sydd bellach yn rhannu'r cyfrifoldeb o roi'r polisïau hyn ar waith. Gwyddom i sicrwydd y bydd gweithredu'r rhaglen hon o ddydd i ddydd yn gofyn am ymddiriedaeth, a bod meithrin ymddiriedaeth rhyngom ni fel partneriaid yn hanfodol er mwyn cynnal hyder pobl Cymru. Gan fod y broses o ffurfio llywodraeth wedi bod yn un faith, rydym ein dau yn cydnabod pwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth yn y sefydliad hwn.

Fel clymblaid o'r ddwy blaid fwyaf yn y Cynulliad, rydym yn llwyr ymwybodol o'n cyfrifoldeb ar y cyd i gynnal democratiaeth hyfyw yn ystod y trydydd tymor hwn, ac i sicrhau bod lleisiau a safbwyntiau gwahanol yn cael eu cynrychioli a'u clywed. Rydym hefyd yn ymwybodol o gyfyngiadau'r cytundeb hwn, gan nad yw ffurfio clymblaid yn gyfystyr ag uno ein pleidiau. Ni fydd unrhyw beth yn y cytundeb hwn yn ein rhwystro rhag cyfrannu ein holl egni i gymryd rhan mewn etholiadau democrataidd, gan gynnwys etholiadau llywodraeth leol 2008. Bydd y naill blaid a'r llall yn cadw ei hunaniaeth a'i chymeriad arbennig ei hun drwy'r cyfan.

Fodd bynnag, rydym ein dau yn gwbl gytûn ei bod yn werth gweithredu yn y ffordd arloesol hon, a hynny er lles pawb.

Y wobr, yn syml, yw creu'r Gymru deg, lewyrchus, hyderus ac allblyg y mae ei dinasyddion yn ei haeddu ac yn galw amdani. Credwn yn bendant fod ein rhaglen ar gyfer llywodraethu yn cynnig y cyfle gorau ar gyfer y polisïau a'r canlyniadau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion sylfaenol pobl Cymru.

Byddwn yn gweithio'n galed i ymdrin â'r materion sydd o bwys i unigolion a theuluoedd ledled Cymru drwy wrando ar leisiau'r undebau llafur, ar fyd busnes, ar lywodraeth leol, ar y sector gwirfoddol, ar y proffesiynau ac ar gymdeithas Cymru yn gyffredinol.

Rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu rhaglen ar gyfer llywodraethu a fydd yn creu'r math o Gymru y gallwn fod yn falch ohoni.

Mae'n rhaglen uchelgeisiol, ond yn un y gellir ei gwireddu; yn rhaglen radical ond eto'n realistig.

Rydym yn ei chymeradwyo gyda'n gilydd i chi.

Rhodri Morgan
Arweinydd Plaid Lafur Cymru

Ieuan Wyn Jones
Arweinydd Plaid Cymru

1. Rhaglen Flaengar ar gyfer Cymru

Amcanion cyffredin, gwerthoedd a gobeithion ar y cyd ar gyfer pobl Cymru – dyma a fydd yn symbylu'r rhaglen lywodraethu bedair blynedd hon. Mae'n cynnig rhaglen flaengar i wella ansawdd bywyd pobl holl gymunedau Cymru, pobl o bob rhan o'r gymdeithas, ac yn enwedig y bobl sydd fwyaf agored i niwed a difreintiedig.

Mae pobl Cymru a'u llywodraeth yn wynebu heriau cwbl newydd. Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym wedi llunio rhaglen ar gyfer llywodraethu sy'n mynd i'r afael â'r heriau hynny. Ein huchelgais fawr yw gweddnwied Cymru a'i throi'n genedl a chymdeithas hyderus, ffyniannus, iach sy'n deg â phawb.

Rydym yn gwbl gytûn o ran ein hymrwymiad i egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynhwysiant – a hynny ar gyfer Cymru gyfan a'i holl bobl. Mae hon yn thema gyson drwy'r rhaglen hon. Dyma'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r rhaglen ac sy'n hanfodol i'w llwyddiant.

Wrth ddyfeisio'r rhaglen hon, rydym wedi cydnabod yn benodol amrywiaeth Cymru – yn ddaearyddol, yn gymdeithasol, yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol. Rydym yn cynnig rhaglen lywodraethu gynhwysfawr, ar gyfer y tymor llawn o bedair blynedd, a'r

rhaglen honno'n ymdrin â'r ystod lawn o feysydd polisi a gweithredu.

Rydym yn cynnig rhaglen sy'n adeiladu cenedl gref a hyderus ac a fydd yn creu dyfodol iach, ffyniant a swyddi mewn cymunedau byw, gan gynnwys mesurau i gefnogi'r Gymraeg.

Rydym yn amlinellu cynlluniau i sicrhau dysgu i fyw, creu cymdeithas deg a chyfiawn a sicrhau amgylchedd cynaliadwy. Yn olaf, ein nod yw cael diwylliant cyfoethog ac amrywiol, sy'n hyrwyddo Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlddiwylliannol.

Mae'r rhaglen hon ar gyfer llywodraethu yn un uchelgeisiol, ond yn un realistig. Mae'n rhaglen radical, ond yn un y gellir ei gwireddu.

Mae'n gwneud y defnydd gorau o'r pwerau a'r adnoddau sydd gan y llywodraeth ar hyn o bryd ac yn nodi a oes angen newidiadau pellach.

2. Cenedl Gref a Hyderus

Heb lywodraeth gref a chanddi genhadaeth a chyfeiriad, ni allwn gyflawni'r newidiadau gwirioneddol a pharhaol wnaiff drawsnewid bywydau pobl ledled Cymru.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod y fframwaith ar gyfer pwerau'r Cynulliad dros y tymor nesaf. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gryfhau pwerau'r Cynulliad ymhellach ac i sicrhau ei fod yn cael cyfran deg o gyllid fel y gall pobl ar hyd a lled Cymru weld gwahaniaethau parhaol a chanlyniadau gwirioneddol. Er mwyn i Gymru ffynnu ymhellach, ac er mwyn cyflawni'r newid hwnnw, rydym yn cydnabod bod angen i'r Cynulliad ddatblygu mwy o bwerau deddfwriaethol.

Pwerau'r Cynulliad

Ymrwymwn gyda'n gilydd i ddefnyddio i'r eithaf ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 o dan Ran III ac i symud ymlaen cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i gael canlyniad llwyddiannus mewn refferendwm ar bwerau deddfu llawn o dan Ran IV, ar ddiwedd y tymor Cynulliad hwn neu cyn hynny.

Mae'r ddwy blaid yn cytuno'n ddiffuant i ymgyrchu o blaid canlyniad llwyddiannus mewn

refferendwm o'r fath. Bydd y paratodau yn dechrau ar unwaith ar gyfer sicrhau'r canlyniad llwyddiannus hwnnw. Byddwn yn sefydlu Confensiwn Cymru Gyfan o fewn chwe mis a chaiff grŵp o Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad o'r ddwy blaid eu comisiynu i bennu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Confensiwn, ar sail cynrychiolaeth eang o'r gymdeithas sifig. Bydd y ddwy blaid wedyn yn pwyso a mesur llwyddiant y broses o ddechrau defnyddio'r pwerau deddfwriaethol sydd ar gael eisoes a, thrwy fonitro'r farn gyhoeddus, bydd angen iddynt asesu lefel y gefnogaeth ar gyfer pwerau deddfu llawn a fydd yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm.

Ariannu a Chyllid

Bydd yna Gomisiwn annibynnol i adolygu Ariannu a Chyllid y Cynulliad, gan gynnwys astudiaeth o Fformiwla Barnett, pwerau amrywio trethi gan gynnwys pwerau benthyg a dichonoldeb cynnig ad-daliadau'r dreth gorfforaeth yn rhanbarth y Gronfa Gydygyfeirio, gan gynnwys goblygiadau Dyfarniadau diweddar Llys Cyfiawnder Ewrop yn y maes hwn.

Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn dilyn argymhellion Adroddiad
Beecham, *Ar Draws Ffiniau:*
Gwasanaethau Lleol sy'n
Canolbwyntio ar y Dinesydd, byddwn
yn creu strategaeth ar gyfer gwella
yn barhaus wasanaethau lleol yng
Nghymru, gyda'r nod o sefydlu'r
effeithlonrwydd a'r gwasanaethau
sy'n canolbwyntio ar y dinesydd sy'n
angenrheidiol yng nghyd-destun
Cynllun Gofodol Cymru. Fel rhan o'r
gwaith hwn, byddwn yn adolygu'r
drefn lywodraethu cyrff y
gwasanaeth cyhoeddus yng
Nghymru i sicrhau eu bod yn
gydnaws â'r agenda hon ar gyfer
gwella.

Byddwn hefyd yn sefydlu Bwrdd
Buddsoddi Cyfalaf Strategol i sicrhau
bod cronfeydd cyfalaf yn cael eu
defnyddio yn y ffordd orau ac i
ddatblygu pob cyfle i fanteisio ar
gyllid cyfalaf sy'n gydnaws â
gwasanaeth cyhoeddus atebol, sy'n
canolbwyntio ar y dinesydd. Byddwn
hefyd yn datblygu cytundebau a
Byrddau Gwasanaethau Lleol gan
gynnwys ymrwymiad i gyllidebau
cyfun.

3. Dyfodol Iach

Ein huchelgais yw creu gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf sydd ar gael i bawb pan fo'i angen arnynt, waeth pwy ydynt neu ymhle y maent yn byw yng Nghymru. Rhaid i bobl Cymru allu ymddiried yn y gwasanaethau iechyd i roi'r gofal gorau posibl.

Rydym yn falch o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Eginodd y gwasanaeth yng Nghymru o gyd-ddyhead pobl i gynnig gwasanaethau o'r radd flaenaf sydd ar gael i bawb, a hynny am ddim yn y manau lle darperir hwy. Rydym yn parhau'n driw ac yn ymrwymedig i'r egwyddorion sylfaenol hynny, a byddant yn llywio ein rhaglen lywodraethu dros y pedair blynedd nesaf.

Rydym yn awyddus iawn i wella iechyd holl bobl Cymru yn sylweddol. Rydym yn cydnabod bod angen gweithio'n galetach i wella byd pawb sy'n agored i niwed neu sydd dan anfantais yng Nghymru, ac sy'n dibynnu'n helaeth ar ein gwasanaeth iechyd.

Rydym yn benderfynol y dylai'r gwasanaethau a ddarperir gan y GIG gael eu llywio gan anghenion pobl. Rhaid i'r gwasanaethu hynny ddiwallu anghenion y bobl hynny. Rhaid iddynt hefyd roi ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth ddiweddaraf ynghylch yr arferion clinigol gorau. Er

mwyn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau bod cynnal cysylltiadau democrataidd yn cael lle canolog yn y GIG.

Gwrthodwn yn gadarn y syniad o breifateiddio gwasanaethau'r GIG neu o drefnu'r gwasanaethau hynny yn ôl modelau'r farchnad. Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn yn parhau'n eiddo cyhoeddus sy'n cael ei ariannu a'i reoli'n gyhoeddus.

Byddwn yn gwneud ein gorau i roi profiad cadarnhaol i gleifion mewn ysbytai, ar adeg sydd, yn anorfod, yn gyfnod anodd iddynt, a hynny drwy weithio'n ddyfal i sicrhau bod yr amgylchedd yn lân a bod y bwyd yn faethlon.

Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn cyflwyno rhaglen lywodraethu sy'n cynnwys:

- Adolygu'r broses o ad-drefnu'r GIG
- Cryfhau trefniadau rheoli ac ariannu'r GIG
- Datblygu a gwella gwasanaethau iechyd Cymru
- Sicrhau mynediad at ofal iechyd

-
- Gwella profiadau cleifion
 - Cefnogi gofal cymdeithasol

Adolygu'r broses o ad-drefnu'r GIG

Rhaid i bobl ledled Cymru fod yn hyderus y bydd unrhyw newidiadau i wasanaethau'r GIG yn eu cymunedau yn esgor ar y gofal gorau posibl. Rydym yn addo y bydd pobl Cymru yn chwarae rhan lawn mewn unrhyw broses o ad-drefnu gwasanaethau:

- Byddwn yn cytuno ar ddull newydd o ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd, ac yn ei roi ar waith.
- Byddwn yn rhoi moratoriwm ar y cynigion presennol i wneud newidiadau ym maes ysbytai cymunedol.
- Rydym yn addo na fydd gwasanaethau Ysbytai Cyffredinol Dosbarth yn cael eu newid oni bai a hyd nes y bydd y gwasanaethau cymunedol cysylltiedig wedi'u trefnu.
- Byddwn yn cefnogi newidiadau lle ceir cytundeb lleol ar y ffordd ymlaen.
- Os bydd y cynigion yn ddadleuol, byddwn yn bwrw ymlaen ar sail tystiolaeth y cytunwyd arni. Bydd y bydd y ddwy blaid wedi bod ynghlwm wrth y broses honno a

bydd wedi'i chynnal mewn modd agored. Lle gwelir diffygion neu fylchau yn y dystiolaeth bresennol, byddwn yn ceisio tystiolaeth newydd ac yn trefnu rhagor o ymgynghori cyhoeddus.

- Byddwn yn ailystyried ac yn adolygu'r cynigion hynny sy'n golygu y byddai gwasanaethau unigol yn cael eu had-drefnu drwy eu rhoi ar un safle.
- Bydd cynnal cysylltiadau democrataidd yn cael lle canolog unwaith eto yng ngwasanaeth iechyd Cymru. Gwneir hynny drwy sicrhau bod llais y cleifion a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn a wnawn. Byddwn yn diwygio ymddiriedolaethau'r GIG er mwyn eu gwneud yn fwy atebol i gymunedau lleol ac i Lywodraeth y Cynulliad.
- Byddwn yn newid y dull presennol o ymgynghori. Cyn cyhoeddi unrhyw ddogfennau ymgynghori ar ad-drefnu gwasanaethau iechyd, cynhelir proses graffu fewnol yn Llywodraeth y Cynulliad, a bydd y ddwy blaid yn cymryd rhan yn y broses. Diben y craffu hwn fydd sicrhau bod dogfennau o'r fath, a'r cynigion sydd ynddynt, yn cael eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth er mwyn iddynt fod yn fwy tebygol o ennyn parch cyffredinol.

Cryfhau systemau rheoli ac ariannu'r GIG

Mae'r ffordd y caiff y GIG ei ariannu a'i redeg yn bwysig. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y GIG yn parhau'n eiddo cyhoeddus sy'n cael ei ariannu a'i reoli'n gyhoeddus.

- Byddwn yn cymryd camau cadarn i roi terfyn ar y farchnad fewnol.
- Byddwn yn sicrhau na fydd y GIG yng Nghymru yn defnyddio ysbytai'r sector preifat erbyn 2011.
- Byddwn yn sicrhau bod y GIG yn derbyn tâl priodol am unrhyw ddefnydd o'i gyfleusterau ar gyfer ymarfer preifat.
- Byddwn yn atal defnyddio'r Fenter Cyllid Preifat yng ngwasanaeth iechyd Cymru yn ystod y trydydd tymor.
- Byddwn yn rhoi terfyn ar dendro cystadleuol ar gyfer contractau glanhau'r GIG.
- Byddwn yn gweithio i greu Athrofa Ymchwil Iechyd Genedlaethol.

Datblygu a gwella gwasanaethau iechyd Cymru

Ni all y Gwasanaeth Iechyd Gwladol aros yn ei unfan. Mae'n rhaid iddo addasu a newid. Mae gwasanaethau a thriniaethau newydd yn dod i'r amlwg drwy'r amser. Fe fyddwn yn gwella ac yn datblygu gwasanaethau'n gyson, a hynny ar

sail y dystiolaeth sydd ar gael. Byddwn yn buddsoddi i atal salwch, yn ogystal â buddsoddi er mwyn rhoi triniaeth a gofal pan fydd salwch yn taro.

Drwy gyfrwng y rhaglen lywodraethu yn ystod y pedair blynedd nesaf:

- Byddwn yn darparu o leiaf un nyrs deulu i bob ysgol uwchradd erbyn diwedd tymor y Cynulliad.
- Byddwn yn peilota system o fuddsoddi mewn canolfannau lles amlbwrpas.
- Byddwn yn darparu mwy o arian ar gyfer gofal lliniarol.
- Byddwn yn rhoi blaenoriaeth newydd i ddarparu ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed.
- Byddwn yn ceisio'r hawl i ddeddfu ym maes iechyd meddwl.
- Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cleifion sydd â chyflyrau hirdymor megis strôc a diabetes.
- Byddwn yn ailedrych ar y gwasanaethau deintyddol yng Nghymru er mwyn cynnig ffocws newydd o ran iechyd y cyhoedd, gan ddatblygu'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a chyflogi mwy o ddeintyddion ar gyflog.
- Byddwn yn buddsoddi £190 miliwn mewn gwasanaethau

iechyd y cyhoedd a gwasanaethau gwella iechyd.

- Byddwn yn cynllunio i gyflwyno, fel rhan o'r gwaith o wella gwasanaethau iechyd rhywiol, cynllun brechu ar gyfer canser ceg y groth o 2008 ymlaen.
- Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o roi sail statudol i wasanaethau iechyd galwedigaethol.
- Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer plant agored i niwed.

Sicrhau mynediad at ofal iechyd

Rydym yn benderfynol y bydd modd i gleifion ym mhob cymuned yng Nghymru gael y gofal sydd ei angen arnynt yn gyflym ac yn hwylus. Yn ystod y tymor nesaf:

- Byddwn yn lleihau amserau aros i uchafswm o 26 wythnos rhwng cyfeirio claf a'i drin, gan gynnwys unrhyw amserau aros am brofion diagnostig neu therapïau.
- Byddwn yn sicrhau gwell mynediad at wasanaethau, gan gynnwys canolfannau lles a chanolfannau galw heibio'r GIG sy'n seiliedig ar fferyllfeydd.
- Byddwn yn cynyddu nifer y nyrsys sydd wedi cymhwyso i roi meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn

annibynnol.

- Byddwn yn parhau i gynnig presgripsiynau am ddim.
- Byddwn yn llunio Siarter Hawliau Cleifion a deddfwriaeth ar wneud iawn am gamweddau yn y GIG.
- Byddwn yn cynyddu'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd.
- Byddwn yn datblygu Cynllun Iechyd Gwledig, gan sicrhau bod anghenion iechyd cymunedau gwledig yn y dyfodol yn cael eu diwallu mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amodau a nodweddion arbennig cefn gwlad Cymru.

Gwella profiad cleifion

Rydym yn addo sicrhau bod cleifion sy'n gorfod aros mewn ysbytai yn cael y profiad gorau posibl. Mae cael profiad cadarnhaol o ofal yn cyflymu'r broses wella ac yn hybu lles cyffredinol pobl yn ystod cyfnod a all fod yn un anodd. Yn ystod y pedair blynedd nesaf:

- Byddwn yn gweithio'n galed i wella bwyd a maeth mewn ysbytai.
- Byddwn yn gwella glendid mewn ysbytai.
- Byddwn yn diwygio'r taliadau a godir am barcio mewn ysbytai a'r taliadau a godir ar gleifion am ddefnyddio'r ffôn neu'r teledu.

Cefnogi Gofal Cymdeithasol

Rydym yn rhoi pwys mawr ar y gofal di-dâl a roddir gan deulu a ffrindiau. Credwn ei fod lawn mor bwysig â'r gofal a ddarperir gan y gwasanaeth iechyd. Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi'r cyfraniad a wneir gan ofalwyr di-dâl Cymru.

Rydym wedi ymrwymo'n gadarn i wella'r gofal a ddarperir gan gyrrff gwirfoddol, preifat a chyhoeddus i bobl agored i niwed. Byddwn yn helpu pobl i fod yn annibynnol ac i wireddu eu llawn botensial, ond hefyd yn amddiffyn pobl pan fyddant ar eu gwannaf. Byddwn yn gwella ansawdd y gofal, gan greu llwybrau gofal di-dor am gost deg.

Yn ein rhaglen lywodraethu ar gyfer y tymor:

- Byddwn yn ceisio'r pwerau ac yna'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth i sicrhau mwy o chwarae teg o safbwynt codi tâl am wasanaethau gofal cartref.
- Byddwn yn ceisio cael mwy o bwerau i ddeddfu ym meysydd plant agored i niwed, plant sy'n derbyn gofal a thlodi plant.
- Byddwn yn adolygu'r Strategaeth Gofalwyr ac yn paratoi deddfwriaeth ar hawliau gofalwyr.
- Byddwn yn datblygu'r cynlluniau presennol ar gyfer y gweithlu fel eu bod yn cynnwys yr holl staff gofal, gyda phwyslais cryf ar hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith

er mwyn galluogi unigolion i ennill cymwysterau ar sail eu sgiliau ymarferol, ac i ddatblygu'r sgiliau hynny ymhellach.

- Byddwn yn datblygu cartrefi nyrsio di-elw newydd.

4. Cymdeithas Lewyrchus

Ein gweledigaeth yw Cymru sydd ag economi gref a mentrus a chyflogaeth lawn sy'n seiliedig ar swyddi o ansawdd. Byddwn yn annog ac yn ysgogi mentergarwch ac yn cynorthwyo cwmnïau i dyfu a buddsoddi. Rhaid rhoi cyfle i bawb gael safon byw resymol, waeth ble maent yn byw neu beth bynnag maent yn ei wneud. Mae cyflogaeth lawn yn cefnogi ac yn cynnal cymunedau ym mhob rhan o Gymru ac yn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais lle bynnag mae'n digwydd.

Gan sylweddoli pa mor bwysig yw sicrhau dull Cymru gyfan o sicrhau ffyniant economaidd, byddwn yn gwneud ein gorau i greu a chadw swyddi ar draws Cymru gyfan, mewn cymunedau gwledig a threfol fel ei gilydd. Byddwn yn gweithredu yn ôl egwyddorion cynaliadwyedd, gan annog swyddi hirdymor o ansawdd uchel. Byddwn yn targedu'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf, lle bynnag y maent yng Nghymru.

Mae busnesau hyfyw yn creu swyddi. Mae'n hanfodol ein bod yn creu hinsawdd bositif ar gyfer twf busnes. Rhaid i Gymru gael enw da am ei llwyddiant ym myd busnes. Byddwn yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ni, o gaffael cyhoeddus a chymorth i fuddsoddi preifat i arian yr Undeb Ewropeaidd i alluogi busnesau i ffynnu ac ehangu.

Drwy wneud hynny, byddwn yn cydweithio'n agos â byd busnes a'r undebau llafur i sicrhau bod y naill a'r llall yn hollol barod ar gyfer her cystadleuaeth fyd-eang.

Mae datgelu potensial pobl Cymru yn hanfodol i'n ffyniant. Byddwn yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i bobl, ar bob lefel, i'w galluogi i wneud y cyfraniad gorau posibl i'r economi a'u cymunedau, ac i gyflawni eu potensial fel unigolion. Byddwn yn rhoi pob cymorth i bobl sicrhau swyddi cynaliadwy lle bydd angen cymorth a chefnogaeth arnynt.

Mae ein rhaglen ar gyfer llywodraethu yn paratoi'r ffordd ar gyfer pedwar cam gweithredu:

- Creu swyddi ledled Cymru
- Ysgogi mentergarwch a thwf busnes
- Hybu twristiaeth
- Gwella sgiliau ar gyfer swyddi

Creu swyddi ledled Cymru

Mae swyddi yn dyngedfennol i Gymru – heb swyddi mae unigolion o dan anfantais enbyd, mae cymunedau ar draws Cymru gyfan yn dioddef ac nid oes unrhyw argoel o ffyniant. Gyda'n gilydd, rydym am

greu swyddi i roi dyfodol mwy llewyrchus i'r bobl a'u cymunedau. Er mwyn gwneud hyn:

- Byddwn yn rhoi strategaeth marchnad lafur ar waith gyda nod hirdymor o gyflogaeth lawn ar raddfa o 80%.
- Byddwn yn mabwysiadu dull Cymru gyfan o sicrhau datblygiad economaidd, gan warantu buddsoddiad ym mhob ardal o Gymru a chan weithio o fewn fframwaith Cynllun Gofodol Cymru.
- Byddwn yn parhau â rhaglenni adfywio allweddol ym Mlaenau'r Cymoedd a Môn Menai.
- Byddwn yn datblygu strategaeth swyddi gwyrdd ar gyfer Cymru gyfan.
- Byddwn yn cefnogi datblygiad Fforwm Gweithgynhyrchu ac Academiâu Sgiliau mewn sectorau gweithgynhyrchu allweddol.
- Byddwn yn parhau i gyflwyno, ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau, rhaglenni arloesol a fydd yn helpu pobl yn ôl i'r gwaith, fel Dringo Ysgol Gyrfa a chymorth ychwanegol ar gyfer gofal plant.
- Byddwn yn sicrhau bod pob prosiect sy'n awyddus i gael arian cyhoeddus, gan gynnwys yr holl gronfeydd strwythurol, yn ceisio bodloni'r meini prawf

cynaliadwyedd.

- Byddwn yn archwilio'r opsiynau ar gyfer cytundeb buddsoddi sector cyhoeddus gyda Banc Buddsoddi Ewrop.
- Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o adleoli is-adrannau'r Cynulliad i'r Gogledd, i'r Gorllewin ac i'r Cymoedd.

Ysgogi mentergarwch a thwf busnes

Rhaid i fusnesau cryf gael cymorth gweithredol er mwyn tyfu a ffynnu. Byddwn yn meithrin hinsawdd bositif ar gyfer mentergarwch a datblygu busnes ar draws Cymru, ac yn benodol yn annog busnesau bach a chanolig i dyfu.

- Drwy weithio o fewn fframwaith cyfreithiol Ewrop, byddwn yn ei gwneud yn haws i gwmnïau bach lleol ym mhob rhan o Gymru ennill contractau'r llywodraeth. Byddwn yn cyflwyno Cod Ymarfer Prynu ar gyfer Cymru gyfan i gyd-fynd â chynnydd graddol yn nghyfanswm cyffredinol y prynu cyhoeddus a wneir drwy fusnesau yng Nghymru.
- Byddwn yn creu un gronfa fuddsoddi ar gyfer cymorth i fusnesau, a fydd yn cynnwys darparu mentergarwch cymdeithasol a mentrau amgylcheddol.

-
- Byddwn yn gwella'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes, o fewn cyd-destun cymorth mwy effeithiol i fusnesau.
 - Byddwn yn cynyddu'r cymorth i farchnadoedd ffermwyr.

Hybu Twristiaeth

Mae twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn rhannau helaeth o Gymru. Felly dylid datblygu twristiaeth ar draws Cymru ar sail ranbarthol er mwyn defnyddio adnoddau ac asedau lleol yn y ffordd orau.

- Byddwn yn parhau i weithio'n galed i hyrwyddo Cymru mewn marchnadoedd allanol, gan fanteisio ar ein hasedau unigryw o ran diwylliant, hanes a'r amgylchedd.
- Byddwn yn buddsoddi'n strategol mewn cyfleusterau a sgiliau gweithwyr.
- Byddwn yn cefnogi'r diwydiant twristiaeth wrth i'r farchnad symud fwyfwy tuag at wyliau byrrach a gwyliau sy'n seiliedig ar weithgareddau.

Gwella sgiliau ar gyfer swyddi

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod gan bobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd y sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu potensial yn y gwaith. Mae sgiliau da hefyd yn cefnogi

datblygiad a thwf busnesau. Er mwyn cyflawni hyn:

- Byddwn yn datblygu rhaglen wedi'i thargedu i wella lefelau sgiliau ar gyfer anghenion y gweithle heddiw ac yn y dyfodol.
- Byddwn yn creu ac yn datblygu cysylltiadau rhwng addysg a mentergarwch.
- Byddwn yn cefnogi datblygu NEWI fel bod ganddo statws Prifysgol llawn.
- Byddwn yn annog gweithgareddau caffael sy'n arwain at gyfleoedd hyfforddi i'r di-waith.
- Byddwn yn ymrwmo i Gronfa Ddysgu Undebau Cymru a Chronfa Foderneiddio'r Undebau.

5. Cymunedau Byw

5.1 Cartref i bawb

Mae prinder tai o ansawdd dda yn effeithio ar iechyd a lles pobl, ac yn dylanwadu ar eu cyfleoedd bywyd hirdymor. Mae gan bawb yr hawl i gartref fforddiadwy fel perchennog, fel rhan-berchennog neu fel tenant. Mae stoc o gartrefi fforddiadwy o ansawdd dda yn sail i gymunedau lleol sy'n ffynnu ym mhob cornel o Gymru.

Prinder tai fforddiadwy, i'w rhentu neu i'w prynu, yw un o'r nifer o heriau mawr sy'n wynebu llawer o gymunedau yng Nghymru. Eisoes mae llawer o lefydd o dan bwysau mawr oherwydd diffyg tai, a phobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai, heb allu fforddio cartref. Mae effaith hynny ar unigolion, teuluoedd a chymunedau i'w gweld yn amlwg iawn ledled Cymru.

Ein huchelgais yw sicrhau y gall pob aelwyd, ym mhob cymuned, waeth beth fo'i hincwm, fforddio cartref boddhaol.

Trwy gydweithio, byddwn yn creu arfau newydd i sicrhau bod tai yn fforddiadwy yn yr ardaloedd hynny sydd dan bwysau difrifol oherwydd diffyg tai. Byddwn yn sicrhau hefyd fod cynnydd o 6,500 o leiaf yn y cyflenwad o dai fforddiadwy yn ystod y pedair blynedd nesaf. Byddwn

hefyd yn rhoi cymorth ariannol i bobl ifanc sy'n dymuno prynu eu cartref cyntaf yn eu cymuned eu hunain ond yn methu fforddio gwneud hynny.

Mae'r rhaglen lywodraethu hon yn ein hymrwymo i wneud y pethau a ganlyn:

- Diwallu'r angen am dai
- Gwella'r cyfle i gael tai
- Gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy
- Sicrhau bod tai'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain

Diwallu'r angen am dai

Mae llawer o gymunedau'n dioddef pwysau difrifol oherwydd diffyg tai, gyda phrisiau tai'n llawer uwch na chyflogau lleol. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r broblem hon yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf drwy ddefnyddio ein pwerau newydd.

- Byddwn yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael pŵer deddfwriaethol i atal yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd lle ceir pwysau oherwydd diffyg tai.

- Byddwn yn adolygu ac yn ailgyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 gyda golwg ar ganiatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio Asesiadau Effaith leithyddol at ddibenion cynllunio mewn ardaloedd lle ceir diffyg tai.
- Byddwn yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol sicrhau bod 100% o'r tai a adeiladir ar safle datblygu yn dai fforddiadwy, er mwyn diwallu anghenion lleol mewn ardaloedd lle mae pwysau mawr oherwydd diffyg tai.
- Byddwn, drwy ddilyn y model Tai Amlfeddiannaeth a nodir yn Neddf Tai 2004, yn anelu i roi'r pŵer i awdurdodau lleol i reoli datblygiadau lle bo anheddau amser llawn yn cael eu troi'n ail gartrefi mewn ardaloedd lle ceir diffyg tai.

Gwella'r cyfle i gael tai

Mae cael eu troed ar yr ysgol dai yn anodd iawn i lawer o bobl sydd ar incwm arferol mewn ardaloedd lle mae prisiau tai yn uchel.

- Byddwn yn darparu grantiau i'r rhai sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf.
- Yn yr adolygiad o TAN 6 sydd ar y gweill, byddwn yn ehangu'r categori presennol o annedd gweithiwr amaethyddol a choedwigaeth i fod yn gategori gweithiwr menter wledig ar gyfer anheddau hanfodol yng nghefn

gwlad.

Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy

Mae angen i ni sicrhau bod digon o dai i ddiwallu anghenion pobl ym mhob cymuned. Dylid rhoi diwedd ar restrau aros hir ar gyfer tai cymdeithasol a dylai cynlluniau i adeiladu tai newydd gynnwys cartrefi fforddiadwy. Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod y cyflenwad o dai fforddiadwy yn cynyddu, drwy fuddsoddi mewn tai cymdeithasol - gan gynnwys tai cyngor – a thrwy hybu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy yn y sector preifat.

- Byddwn yn darparu mwy o gyllid er mwyn cefnogi tai cymdeithasol.
- Bydd angen i bob datblygiad sylweddol i adeiladu tai newydd gynnwys canran o dai cymdeithasol sy'n adlewyrchu'r angen lleol.
- Byddwn yn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau lleol i ddynodi safleoedd lle na chaniateir datblygu heblaw ar gyfer tai fforddiadwy, a hynny gan ystyried egwyddorion cyfagosrwydd a chynaliadwyedd.
- Byddwn yn diwygio ac yn ailgyhoeddi canllawiau ar 'fforddiadwyedd' a meini prawf 'lleol' i'w defnyddio mewn cytundebau adran 106.

- Byddwn yn gwella pethau'n radical o ran darparu cyflenwad o dir sy'n eiddo cyhoeddus - gan gynnwys tir sy'n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad - ar gyfer tai lleol fforddiadwy.
- Byddwn yn rhoi mwy o bŵer o ran penodoldeb wrth ddynodi tir sy'n eiddo i'r Cynulliad at ddibenion tai fforddiadwy.
- Byddwn yn hybu'r gwaith o ehangu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yng Nghymru.
- Byddwn yn llobio llywodraeth San Steffan i roi mwy o ddisgresiwn i fudiadau elusennol i werthu tir sy'n is na'r gwerth ar y farchnad at ddibenion tai fforddiadwy.
- Byddwn yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol i baratoi cynllun cyflenwi tai fforddiadwy - cynllun sy'n cydfynd â'u strategaeth dai ac sy'n cynnwys niferoedd targed.

Tai cymdeithasol yr unfed ganrif ar hugain

Rydym yn gadarn yn ein hymrwymiad i sicrhau bod tai cymdeithasol yng Nghymru yn bodloni safonau'r unfed ganrif ar hugain.

- Byddwn yn parhau i adolygu Safon Ansawdd Tai Cymru. Pan fydd awdurdodau lleol unigol, ar ôl sicrhau cytundeb y boblogaeth leol, yn cyflwyno achos i

gydymffurfio â'r Safonau drwy gyfrwng amserlen gydymffurfio estynedig, a phan ategir y cais gan gynllun busnes cadarn, byddwn yn ystyried ceisiadau o'r fath yn ôl eu rhinweddau eu hunain.

- Pan fydd pleidlais gudd ar drosglwyddo stoc wedi digwydd o fewn oes y cyngor, byddwn yn sicrhau na chaiff ail bleidlais ddigwydd o fewn tymor yr awdurdod lleol hwnnw oni ellir dangos bod newid sylweddol wedi digwydd yn yr amgylchiadau
- Pan fydd awdurdodau lleol yn penderfynu cynnal pleidlais gudd ar drosglwyddo stoc, byddwn yn gweithio'n ddyfal i sicrhau bod cyngor diduedd ar gael i denantiaid.
- Byddwn yn rhoi mwy o gyllid i'r rhaglen Cefnogi Pobl dros dymor pedair blynedd y Cynulliad.

Digartrefedd

Byddwn yn mynd i'r afael â digartrefedd yn ein holl gymunedau. Er mwyn gwneud hynny:

- Byddwn yn llunio cynllun i fynd i'r afael â digartrefedd dros ddeng mlynedd, gan geisio pwerau newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, lle bydd pwerau o'r fath yn angenrheidiol i ddatblygu a gweithredu strategaeth Cymru.

5.2 Mynediad i bawb

Gall teithio ar draws llawer o Gymru fod yn hir ac yn drafferthus, boed yn y car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym am weld Cymru'n dod yn wlad lle mae teithio rhwng cymunedau mewn ardaloedd gwahanol yn hawdd ac yn gynaliadwy. Rydym wedi ymrwymo'n llawn i greu cysylltiadau trafniadaeth gwell - yn ffyrdd ac yn rheilffyrdd - rhwng y Gogledd a'r Gorllewin a'r De.

Nid oes gan chwarter holl gartrefi Cymru gar ac maent yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gerdded neu feicio. Byddwn yn gweddnewid y ddarpariaeth o wasanaethau bysiau drwy fuddsoddi mewn system drafnidiaeth gyhoeddus integredig. Bydd trafniadaeth gyhoeddus well hefyd yn helpu pobl mewn cymunedau nad ydynt yn rhai trefol i ddibynnu llai ar y car, gan y gall costau rhedeg car fod yn afresymol i bobl ar incwm isel.

Bydd gwelliannau dramatig i drafnidiaeth gyhoeddus yn annog pobl i wneud llai o ddefnydd o'r car. Yn ei dro, bydd hynny'n cyfrannu at leihau ôl-troed carbon Cymru.

Bydd ein rhaglen ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn cynnwys:

- Gwella trafniadaeth ranbarthol a chenedlaethol
- Gwella hygyrchedd.

Gwella trafniadaeth ranbarthol a chenedlaethol

Byddwn yn gwella trafniadaeth rhwng cymunedau ar draws Cymru drwy fuddsoddi mewn gwahanol ddulliau o deithio.

- Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen i wella'r cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De, gan gynnwys teithio ar ffyrdd a rheilffyrdd.
- Byddwn yn lleihau'r amser teithio ar y rheilffordd rhwng y Gogledd a'r De.
- Byddwn yn creu rhwydwaith trafniadaeth Traws Cambria newydd ar gyfer Cymru gyfan a fydd yn integreiddio siwrneiau hir ar y trên a'r bws gyda thrawsdocynnau electronig erbyn 2011.
- Byddwn yn parhau i wella diogelwch ac ansawdd gorsafoedd a phlatfformau ym mhob rhan o Gymru, gan gyflwyno trenau a gwasanaethau trên newydd.
- Byddwn yn cyflwyno Pwyllgor Teithwyr Trafniadaeth Cenedlaethol ar gyfer Cymru.
- Byddwn yn gwella'r trefniadau cynllunio strategol ranbarthol a chenedlaethol ar gyfer trafniadaeth.
- Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o wella'r prif gysylltiadau

ffordd rhwng y Gogledd, y Gorllewin a'r De, gan fuddsoddi dros £50 miliwn at y diben hwnnw yn ystod tymor pedair blynedd y Cynulliad.

Gwella Hygyrchedd

Mae'r rhan fwyaf o siwrneiau yn lleol - mynd i siopa, mynd â'r plant i'r ysgol, mynd i'r gwaith neu i apwyntiadau ysbyty. Er mwyn gwella trafnidiaeth leol:

- Byddwn yn defnyddio pwerau newydd i awdurdodau lleol gynllunio a chefnogi teithiau bysiau newydd i wella cysylltiadau rhwng cymunedau.
- Byddwn yn gwella ac yn cysylltu llwybrau beicio trwy Gymru gyfan.
- Byddwn yn gwella'r trefniadau gostyngiadau i bensynwyr ar drenau.
- Byddwn yn cefnogi cynaliadwyedd trafnidiaeth drwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth gymunedol, beicio, llwybrau diogel i ysgolion a pharthau 20 milltir yr awr.
- Byddwn yn bwrw ymlaen â deddfwriaeth ar wella cludiant i ysgolion.
- Byddwn yn datblygu cynllun i symud cludiant cargo oddi ar y ffyrdd i'r rheilffyrdd.

6. Dysgu i Fyw

Mae addysg yn grymuso. Mae diwylliant o ddysgu yn helpu i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chynhyrchiant economaidd ac i ymateb i heriau technoleg newydd. Mae'n ein helpu i ddeall yn well ein lle yn y byd, i ddeall y gorffennol er mwyn cynnig dyfodol gwell i bobl Cymru.

Gall cyrhaeddiad addysgol pobl ifanc un-ar-bymtheg oed effeithio'n sylweddol ar ba mor debygol y maent o gael swydd ac ar lefel eu cyflog. Mae llawer o bobl ifanc yn dal heb gyrraedd eu llawn botensial. Mae angen cymorth ar lawer o oedolion Cymru hefyd i ddechrau – neu i barhau – i ddysgu yn nes ymlaen mewn bywyd.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas lle mai dysgu gydol oes yw'r norm, lle mae pobl Cymru yn mynd ati yn ddiwyd i gasglu gwybodaeth a sgiliau newydd drwy gydol eu hoes. Byddwn yn ymateb i'r her o wella lefel cymwysterau ein plant, ein pobl ifanc a'n hoedolion hefyd. Byddwn yn adeiladu ar ein partneriaeth gyda darparwyr addysg, staff a rhieni i greu'r ysgolion gorau posibl ar gyfer y dyfodol.

Fel llywodraeth, rydym wedi ymrwymo'n ddiwyro i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant Cymru, a hynny drwy ddarparu addysg o'r radd flaenaf i bob plentyn, beth

bynnag ei gefndir cymdeithasol neu lle bynnag y mae'n byw. Rydym hefyd yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo a chefnogi dysgu ymhlith oedolion, boed mewn addysg bellach, addysg uwch neu ddysgu cymunedol.

Mae ein rhaglen ar gyfer llywodraethu yn cynnwys:

- Sefydlu'r hawl i ddysgu
- Diwygio prosesau cyllido
- Sicrhau'r dechrau gorau i blant ifanc
- Creu ysgolion yr unfed ganrif ar hugain
- Datblygu dysgu ymhlith oedolion

Sefydlu'r hawl i ddysgu

Mae gan bawb hawl i addysg, beth bynnag eu cefndir, beth bynnag eu hoedran, boed yn siarad Cymraeg neu Saesneg.

- Byddwn yn rhoi hawl wedi'i gwarantu gan y llywodraeth, â chefnogaeth arian newydd, i addysg a hyfforddiant achrededig hyd ddeunaw oed, gan gynnwys bagloriaeth ehangach, sy'n cynnwys cyfleoedd dysgu

galwedigaethol ac academiaidd, a hynny o fewn fframwaith deddfwriaethol.

- Byddwn yn llunio cytundeb polisi newydd gydag Awdurdodau Addysg Lleol i'w gwneud yn ofynnol iddynt asesu'r galw am addysg Gymraeg, gan gynnwys ystyried dymuniadau'r rhieni drwy holiadur, a llunio Cynllun Trefniadaeth Ysgolion, yn nodi camau clir i'w cymryd er mwyn diwallu'r angen.
- Byddwn yn creu Strategaeth Addysg gyfrwng-Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, a'r strategaeth wedi'i hategu gan raglen weithredu.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu cwricwlwm unigryw sy'n briodol i Gymru.
- Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Addysg Uwch Cyfrwng-Cymraeg – y Coleg Ffederal – er mwyn sicrhau darpariaeth Gymraeg yn ein prifysgolion.
- Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Uned Cymraeg i Oedolion a ariennir yn ddigonol, gan roi blaenoriaeth i addysg diwtora.

Diwygio prosesau cyllido

Rhaid inni sefydlu trefniadau cyllido sy'n caniatáu i ysgolion a cholegau gynllunio ar gyfer y dyfodol.

- Byddwn yn diwygio'r trefniadau cyllido ar gyfer ysgolion a cholegau Addysg Bellach, gan gynnwys symud i gyfeiriad proses gyllid tair blynedd.
- Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, undebau, grwpiau proffesiynol a rhieni i adolygu'r fformwla a ddefnyddir i gyllido ysgolion, gan ystyried ffyrdd o leihau effaith amrywiadau mawr yn niferoedd disgyblion, er mwyn rhoi sail gadarn i ysgolion gynllunio arni.
- Byddwn yn parhau â'r trefniadau grant presennol ar gyfer ysgolion bach a gwledig, gan wneud gwell defnydd o adeiladau ysgol er mwyn bod yn fwy hyfyw.

Sicrhau'r dechrau gorau i blant ifanc

Rydym yn benderfynol y caiff plant ifanc iawn bob cyfle i ddatblygu a thyfu mewn amgylchedd hapus, iach a chefnogol. Yn ein rhaglen lywodraethu dros y tymor pedair blynedd:

- Byddwn yn ymrwmo i ddatblygu darpariaeth gofal plant fforddiadwy i bawb, gyda chymorth cyllideb ychwanegol yn ystod tymor y Cynulliad, gan gynnwys gofal plant llawn amser estynedig, o ansawdd uchel, yn rhad ac am ddim i blant dwy oed

yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.

Creu ysgolion yr unfed ganrif ar hugain

Mae angen i ysgolion fod yn addas i'r diben ac wedi'u cyllido'n iawn, gyda staff cwbl broffesiynol ac ymrwymedig. Rhaid i blant allu cael y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt, a dilyn cwricwlwm sy'n ysbrydoli ac yn hyrwyddo cyrhaeddiad.

Rhaid i ysgolion weithio mewn partneriaeth gyda rhieni a'r gymuned er mwyn sicrhau manteision gwirioneddol a pharhaol i bob plentyn, beth bynnag ei gefndir.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, dyma ein rhaglen lywodraethu yn ystod y tymor pedair blynedd:

- Byddwn yn lleihau yn ddramatig y niferoedd mewn dosbarthiadau plant tair i saith oed.
- Byddwn yn cefnogi datblygiad ysgolion cymunedol, gan gynnwys hyrwyddo mwy o gyfleoedd chwaraeon mewn ysgolion a chymunedau.
- Byddwn yn parhau â rhaglen buddsoddi cyfalaf bwysig i wella adeiladau ysgol, gan ddarparu mwy o arian nag a wnaed yn ystod y pedair blynedd diwethaf.
- Byddwn yn sefydlu rhaglen o fuddsoddi mwy mewn adeiladau ysgol cynaliadwy, gan gynnwys

darparu ysgeintwyr dŵr.

- Byddwn yn darparu mwy o adnoddau addysg gorfforol mewn ysgolion ac yn hyrwyddo'r ymgyrch i warchod caeau chwarae ysgolion.
- Byddwn yn cychwyn cynllun peilot i ddarparu gliniaduron i blant.
- Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth ar Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Byddwn yn sefydlu ymchwiliad i broblem ymddieithrio o ddysgu ymhlith plant a phobl ifanc ac yn edrych ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Bydd y cylch gwaith yn cynnwys pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, y cwricwlwm, darpariaeth addysg ôl-16 a photensial cynlluniau dysgu personol.
- Byddwn yn cadw'r rhaglen brechwast am ddim mewn ysgolion.
- Byddwn yn asesu effaith datblygiadau'r cwricwlwm 14 – 19 ar gyllid ysgolion uwchradd, ac yn cyflwyno cynigion ar gyfer trafod addysg ôl-14 yn unol â hynny.
- Byddwn yn adolygu'r ffordd rydym yn mesur cyrhaeddiad addysgol, gan gynnwys defnyddio pryddau ysgol am ddim fel dangosydd yn y maes hwn.

- Byddwn yn datblygu strwythur cenedlaethol ar gyfer cynorthwywyr dosbarth.
- Byddwn yn cefnogi cynlluniau peilot ar gyfer ysgolion Sadwrn ac ysgolion haf mewn chwaraeon, cerddoriaeth a'r celfyddydau.
- Byddwn yn datblygu cyfleoedd i ysgolion a cholegau gydweithio â chlybiau chwaraeon lleol a buddsoddi ymhellach mewn hyfforddiant chwaraeon.
- Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o gydnabod a gwobrwyo gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc.
- Byddwn yn asesu effaith patrymau mewn fudo ar y ddarpariaeth addysg, yn enwedig o wledydd sydd wedi'u derbyn i'r UE.

Datblygu dysgu ymhlith oedolion

Mae rhwydwaith cryf o golegau a phrifysgolion yng Nghymru sy'n cynnig addysg bellach ac uwch. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar effaith economaidd, gymdeithasol a diwylliannol colegau a phrifysgolion ar ddysgwyr ac ar y gymuned ehangach. Rydym yn benderfynol o ddatblygu system addysg bellach ac uwch sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu, sy'n ymateb i anghenion myfyrwyr a chyflogwyr, ac sy'n mynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Rydym wedi ymrwymo i

ehangu cyfranogiad ym maes addysg uwch. Rhoddir anogaeth gref i bob sefydliad addysg weithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud y mwyaf o'u hadnoddau a darparu'r amrywiaeth ehangaf bosibl o gyfleoedd.

Er mwyn gwneud hyn:

- Byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer dyledion myfyrwyr ac yn rhewi'r lefelau ffioedd yng Nghymru hyd at 2009/10, gan gynnwys y flwyddyn honno. Byddwn yn cynnal y lefel adnoddau gyfredol drwy gydol tymor pedair blynedd y Cynulliad, gan wneud beth bynnag sy'n bosibl i leihau'r effeithiau ar fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru os bydd llywodraeth San Steffan yn codi'r ffioedd yn 2009.
- Byddwn yn cynyddu yn sylweddol nifer y prentisiaethau.
- Byddwn yn defnyddio Adroddiad Webb ar Addysg Bellach yng Nghymru yn llawn er mwyn datblygu system sy'n ymateb i anghenion a blaenoriaethau cymunedau lleol, cyflogwyr a'r economi lleol a rhanbarthol. Partneriaeth fydd sail ein dull gweithredu yn y maes hwn, fel yn y gorffennol.
- Byddwn yn gweithio i ehangu cyfranogiad pob oedran mewn addysg bellach ac uwch, gan hyrwyddo dysgu ymhlith oedolion a dysgu cymunedol i wneud pobl yn fwy cyflogadwy ac i gynnig y manteision ehangach sy'n dod yn

sgil addysg.

- Byddwn yn sicrhau bod cyllid ychwanegol ynghlwm wrth ddulliau newydd mewn addysg uwch, er mwyn datblygu cynigion ar gyfer cydweithio a datblygu ymhellach gytundebau rhwng Prifysgolion ar gyfer cydweithio rhwng adrannau ledled Cymru.
- Byddwn yn sefydlu Cronfa Gwasanaeth Ieuencid Genedlaethol.
- Byddwn yn gweithio i sefydlu Academi Wyddoniaeth Genedlaethol.
- Byddwn yn sefydlu Canolfannau Ymchwil Cenedlaethol newydd.

7. Cymdeithas Deg a Chyfiawn

Ein gweledigaeth yw Cymru deg a chyfiawn, lle gall pob dinesydd benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain a llywio'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Ein huchelgais yw Cymru lle mae pawb yn cyflawni ei lawn botensial a lle nad oes unrhyw un yn byw mewn tloedi, lle na wahaniaethir yn eu herbyn, a lle nad oes ofn na chamdrin.

Bydd y llywodraeth yn ymlynu'n gadarn wrth egwyddorion cynhwysiant, lluosogyddiaeth a thegwch. Byddwn yn sicrhau bod gan bawb o bob cefndir yng Nghymru ran i'w chwarae fel dinasyddion. Mae ein rhaglen yn pwysleisio mynd i'r afael ag achosion ymddygiad anodd, yn hytrach na'r symptomau yn unig, ac mae'n diogelu unigolion neu grwpiau sy'n agored i niwed rhag dioddef niwed neu rhag gwahaniaethu yn eu herbyn.

Rydym wedi ymrwymo'n gadarn i gefnogi a chynnwys y rhai sydd wedi'u gwthio i ymylon cymdeithas. Byddwn yn cynnig triniaeth a chymorth priodol ac effeithiol iddynt fod â rhan yn y gymuned ehangach unwaith eto ac i sicrhau bod y gymuned ehangach yn cynnwys pawb.

Rydym am weld system cyfiawnder ieuenctid a throseddol sy'n deg, system y mae gan bobl Cymru bob hyder ynddi.

Mae ein rhaglen lywodraethu yn cynnwys:

- Hybu cydraddoldeb
- Ehangu dinasyddiaeth a chydlyniant cymunedol
- Adfywio cymunedau
- Mynd i'r afael â thloedi ymhlith plant
- Sicrhau system cyfiawnder ieuenctid a throseddol effeithiol

Hybu cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod bod gwahaniaethu ar hap yn erbyn unigolion a grwpiau yn niweidio'u cyfle mewn bywyd. Ein nod yw meithrin cymunedau cydlynus, amrywiol a chyfiawn lle mae pobl yn teimlo bod eraill yn eu gwerthfawrogi, beth bynnag eu gallu corfforol, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hil, eu credo neu eu hiaith.

Yn ystod y pedair blynedd nesaf:

- Byddwn yn gweithio i sicrhau llwyddiant y Corff Cydraddoldeb Unigol newydd yng Nghymru, gan dynnu ar brofiad y dull hwn o weithredu'n annibynnol yng Ngogledd Iwerddon.
- Byddwn yn parhau i gydweithredu â'r Fforwm Aml-ffydd, a hynny'n fwy nag erioed, er mwyn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ar draws diwylliannau a chrefyddau; byddwn yn datblygu ymhellach fodelau arfer da a'u lledaenu ymhlith cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n cydnabod ac yn parchu amrywiaeth yn ogystal â'r hyn sy'n gyffredin rhwng pobl.
- Byddwn yn archwilio ac yn gweithredu ffyrdd newydd o ennyn diddordeb dinasyddion, drwy ddulliau cyfranogol ac ymarferol.
- Byddwn yn gweithredu Strategaeth Cymru Gyfan ar Sipsiwn a Theithwyr.
- Byddwn yn mireinio ac yn gweithredu'r Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid, gan gynnwys yr argymhellion ar fuddiannau plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
- Byddwn yn datblygu strategaeth i leihau troseddau casineb.

Ehangu dinasyddiaeth a chydlyniant cymunedol

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth cydlyniant cymunedol drosfwaol i Gymru gyfan. Fel rhan o'r strategaeth hon:

- Byddwn yn sefydlu unedau ym mhob ardal awdurdod lleol, gan annog dinasyddiaeth gadarnhaol, gan annog pobl i beidio ag ymddwyn yn anghymdeithasol a chan fynd i'r afael â hyn drwy strategaethau fel cyfryngu, gorchmynion gwneud iawn, gorchmynion diogelwch plant a chontractau ymddygiad derbyniol.

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu Strategaeth Lleihau Camddefnydd Alcohol i Gymru Gyfan gyda'r nod o gynyddu nifer y canolfannau adsefydlu mewn perthynas â chyffuriau ac alcohol yng Nghymru.

- O ran camddefnyddio sylweddau, byddwn yn integreiddio ymhellach egwyddorion modelau lleihau niwed drwy ystyried, os yw'r dystiolaeth yn ategu hynny, mabwysiadu rhaglenni peilot fel y rhai sydd ar waith yn Lloegr ar hyn o bryd.
- Byddwn yn gweithredu ar yr adroddiad ar wasanaethau cynghori ynghylch camddefnyddio sylweddau a luniwyd yn gynharach yn 2007, gan gynnwys datblygu'r gweithlu a sefydlu Grŵp Cymru Gyfan i oruchwylio safonau a gwasanaethau.

-
- Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd rhaglenni addysg lleihau niwed mewn ysgolion.

Adfywio Cymunedau

Rydym yn gwbl benderfynol o adfywio cymunedau amrywiol, o ran lleoliad ac o ran pobl, ledled Cymru. Byddwn yn grymuso pobl i ailadeiladu gwedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu cymunedau a byddwn yn cynnal cysylltiadau cadarnhaol a phwrpasol â chynrychiolwyr cymunedau.

Yn ystod y pedair blynedd nesaf:

- Byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol i bensiynwyr gyda'u treth gyngor.
- Byddwn yn sefydlu mentrau integredig a thrawsbynciol gyda'r nod o sicrhau datblygu economaidd ac adfywio, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uchel – bydd modelau presennol Rhaglen Blaenau'r Cymoedd a Môn Menai yn enghreifftiau o arfer da.
- Byddwn yn ailsefydlu ac yn ailffocysu'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post, gan ymchwilio ar y cyd â chydweithwyr mewn llywodraeth leol i ffyrdd o ddefnyddio swyddfeydd post yn well er dibenion awdurdodau lleol, busnesau a gwasanaethau lleol eraill. Byddwn yn annog hefyd osod peiriannau tynnu arian am ddim mewn swyddfeydd

post.

- Byddwn yn cydweithio i ddatblygu Cymunedau'n Gyntaf i'r cam nesaf - Cymunedau Nesaf - gan dynnu ar brofiad y symudiad i ddatblygu cymunedau ehangach yng Nghymru a chasgliadau'r Gwerthusiad Interim o'r rhaglen.
- Byddwn yn sefydlu ac yn gweithredu'n llawn y strategaeth sy'n ymwneud â helpu a chydgyssylltu gwasanaethau cyngor yng Nghymru, fel bod cyngor cynhwysfawr ar fudd-daliadau ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol.
- Byddwn yn parhau ac yn helpu ymhellach Gynllun y Sector Gwirfoddol ac yn ehangu ymhellach rôl y sector o ran llunio polisi.

Mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant

Rydym yn cydnabod bod tlodi ymhlith plant, gan gynnwys tlodi difrifol, yn fater o bryder mawr, ond yn cydnabod hefyd bod cynnydd wedi'i wneud.

Rydym yn pwysleisio unwaith eto yr angen am raglenni a pholisïau trawsbynciol i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant (a'r tlodi ymhlith y teuluoedd a'r cymunedau hynny ledled Cymru y mae plant tlawd yn byw ynddynt). Mae'r llywodraeth hon yn ei hymrwymo'i hun i ddatblygu atebion i'r problemau hyn sy'n benodol i Gymru yn ogystal ag i

integreiddio strategaethau â rhaglenni priodol sydd ar hyn o bryd yn rhan o gylch gorchwyl llywodraeth San Steffan. I'r perwyl hwn:

- Byddwn yn cefnogi'r nod o haneru tloedi ymhlith plant erbyn 2010 a diddymu tloedi ymhlith plant erbyn 2020.
- Byddwn yn gweithredu Bond Plant ychwanegol i bob plentyn sy'n dechrau yn yr ysgol.
- Byddwn yn ysgogi adolygiad grymus a fydd yn gwerthuso canlyniadau rhaglenni yn erbyn tloedi yng Nghymru. Y bwriad, lle bo hynny'n briodol, fydd adeiladu ar yr hyn a gyflawnir gan y rhaglenni tra'n sefydlu meincnodau grymus y gellir eu dangos o'r canlyniadau a dulliau cadarn o ran arferion a gwerthuso ar gyfer rhaglenni arfaethedig (er enghraifft, Cymunedau Nesaf).
- Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn integreiddio'r setiau data amrywiol ac amlycaf sydd ar gael o ran tloedi ymhlith plant yng Nghymru a'r canlyniadau o ran ymyrraeth polisi, a hefyd, lle bo'n bosibl, byddwn yn archwilio ac yn integreiddio rhaglenni presennol yn erbyn tloedi fel Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Canolfan Byd Gwaith, Paru Swyddi etc.
- Byddwn yn mabwysiadu Cynllun Gofodol Cymru fel arf integredig yn y maes polisi hwn.

- Byddwn yn deddfu i sefydlu dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i gyfrannu at ddod â thlodi ymhlith plant i ben ac i arddangos hynny.
- Byddwn yn sefydlu 'grŵp arbenigwyr' i fynd i'r afael â'r gofynion polisi pellach ac ehangach sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y targedau yn *Dileu Tloedi Plant yng Nghymru – Mesur Llwyddiant*.
- Byddwn yn sefydlu undebau credyd – fel dull o fentergarwch cymdeithasol – ym mhob rhan o Gymru.
- Yn erbyn cefndir o gymorth cyffredinol, byddwn yn sicrhau bod undeb credyd ar gael i bob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn 2011.

Byddwn yn datblygu ymhellach allu undebau credyd yng Nghymru i gymryd adneuo'n gyfrifon Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant.

Sicrhau System Cyfiawnder Ieuctid a Throseddol Effeithiol

Rydym yn gwbl ymrwymedig i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd problemau ymddygiad, lle bynnag y'u gwelir, a hynny mewn ffordd gadarn. Ein nod yw atal troseddu ac aildroseddu ymhlith pobl ifanc. Byddwn yn ystyried hefyd y posibilrwydd o ddatganioli rhywfaint

neu'r cyfan o'r system cyfiawnder troseddol.

Yn ein rhaglen lywodraethu:

- Byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i ymyrryd cyn i broblemau ddigwydd a dulliau datrys nad ydynt yn cynnwys carcharu, mewn perthynas â materion troseddu ymhlith ieuenctid a materion cyfiawnder ieuenctid (a) wrth benderfynu ar gyllid i'r meysydd hyn (b) wrth osgoi strategaethau carcharu yn unol â phwyslais ar dystiolaeth o ran effeithlonrwydd.
- Byddwn yn ystyried modelau effeithiol o arferion trawsbynciol rhwng y system cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau addysg, tai a iechyd meddwl.
- Byddwn yn ystyried y dystiolaeth dros ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol yng nghydestun (a) datganoli cyllid a (b) symud i gyfeiriad sefydlu un weinyddiaeth gyfiawnder yng Nghymru.

8. Amgylchedd Cynaliadwy

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf i wynebu'r hil ddynol. Mae gan bawb yng Nghymru ei gyfraniad i'w wneud i fynd i'r afael â hyn – unigolion, cartrefi, busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau cymunedol. Rhaid i'r llywodraeth hon, drwy ei hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, fod ar flaen y gad yn yr ymgyrch.

Mae amgylchedd cyfoethog ac amrywiol yn ardaloedd gwledig a threfol Cymru fel ei gilydd, ac mae angen eu diogelu a'u gwella ar gyfer pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r amgylchedd lleol yn bwysig, ac mae cymunedau'n cael eu difetha gan sbwriel, tipio anghyfreithlon a llygredd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd lleol a'r effaith ar gymunedau, a byddwn yn cefnogi unrhyw ymgais i'w wella i safon uchel.

Mae Cymru'n gyfoethog mewn ynni, ac felly mae gennym rôl i'w chwarae i gynhyrchu ynni o ffynonellau amgen. Ond hefyd rhaid i ni wneud pob ymdrech i beidio â gwastraffu ein hadnoddau gwerthfawr, sy'n

golygu helpu cartrefi a sefydliadau ar draws Cymru i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Mae rhai ardaloedd yng Nghymru wledig yn gweld newid economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyflym, yn wynebu heriau unigryw, ac yn gorfod addasu i amgylchiadau newydd. Edrychwn ymlaen at weld cymunedau gwledig sy'n ffynnu, lle mae pobl yn byw ac yn gweithio ac yn mwynhau safon byw uchel. Byddwn yn rhoi cymorth i'r cymunedau hynny ym mhob rhan o gefn gwlad Cymru i greu dyfodol newydd.

Ni fyddwn yn anghofio bod gennym ran i'w chwarae yn y gwaith o fynd i'r afael â heriau amgylcheddol bydeang. Byddwn hefyd yn gofalu am ein hamgylchedd ac yn rhoi lle canolog i'r fferm deuluol yn ein strategaeth ar gyfer cynhyrchu bwyd a datblygu cefn gwlad mewn modd cynaliadwy.

Bydd ein rhaglen ar gyfer llywodraethu yn ystod y tymor pedair blynedd yn cynnwys:

- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- Cefnogi datblygu gwledig
- Sicrhau bod ynni'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio'n gynaliadwy
- Gwella'r amgylchedd lleol

Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fgygythiad mawr byd-eang. Rydym yn benderfynol y bydd y llywodraeth hon a phobl Cymru'n gwneud eu gorau glas i leihau ein hallyriadau CO₂. Ni all hyn fod yn brosiect byrdymor - rhaid cael newidiadau sylfaenol yn ymddygiad pobl ac yn eu disgwyliadau, a bydd gofyn am weithredu ar y cyd yn ystod cyfnod pedair blynedd llawn llywodraeth y Cynulliad.

- Byddwn yn sefydlu Comisiwn Newid Hinsawdd i Gymru o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig. Bydd yn cynnwys aelodau o'r pedair plaid wleidyddol, busnesau, llywodraeth leol a grwpiau o'r sector gwirfoddol. Bydd y Comisiwn yn helpu i ddatblygu polisiâu newydd ac i greu consensws ar newid hinsawdd. Bydd yn gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolydd Cymru ar Gomisiwn Datblygu

Cynaliadwy y DU.

- Byddwn yn anelu i sicrhau lleihad yn yr allyriadau carbon blynyddol sy'n gyfwerth â 3% y flwyddyn erbyn 2011 mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli. Byddwn yn pennu targedau penodol fesul sector yn y meysydd preswyl, cyhoeddus a thrafnidiaeth. Byddwn yn cydweithio â'r diwydiannau trwm/cynhyrchu pŵer i leihau allyriadau yn y sectorau hynny.
- Byddwn yn ymrwmo i dargedau ar wneud adeiladau cyhoeddus yn niwtral o ran carbon.
- Byddwn yn rhoi cymorth i goetiroedd cynhenid, gan gynnwys rhoi coeden i bob babi newydd a phlentyn wedi'i fabwysiadu, a helpu drwy hynny i greu Coedwig Genedlaethol i Gymru o goed cynhenid i weithredu fel sinc carbon.

Cynnal cymunedau gwledig

Mae newidiadau anferthol yn digwydd i gymunedau gwledig ledled Cymru. Lle bo angen, mae angen cymorth arnynt i ffynnu, addasu ac arallgyfeirio er mwyn sicrhau dyfodol sy'n well ac yn fwy llewyrchus. Mae angen y cymorth hwn ar gyfer tymor llawn llywodraeth y Cynulliad.

Er mwyn helpu ardaloedd gwledig o bob math, rydym yn ymrwmo i wneud y canlynol:

- Byddwn yn cyflwyno Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2007-2013 i'r Undeb Ewropeaidd, yn seiliedig ar lefel y cyllid Tir Mynydd y cytunwyd arni gan y Cynulliad ym mis Mawrth 2007. Byddwn yn datblygu cynllun yn ei lle ar ôl 2010, gan gynnwys cynllun i rai sy'n dechrau ffermio, ac yn ystyried yr effaith ar elfennau eraill o fewn Echel Dau.
- Byddwn yn cychwyn menter o bwys ar gaffael bwyd lleol.
- Yn fuan iawn byddwn yn cwblhau, yn cyhoeddi ac yn rhoi Cynllun Gweithredu Strategol ar waith ar gyfer y diwydiant llaeth.
- Byddwn yn ceisio rhanddirymiad o Reoliadau'r UE i wahardd claddu stoc trig ar dir ffermydd.
- Byddwn yn mynd ati'n ddyfal i gynnal rhaglen o ddileu TB mewn gwartheg.
- Byddwn yn annog gweithio gyda'r awdurdodau lleol perthnasol i ddynodi ac ymdrin ag anghenion penodol ardaloedd gwledig anghysbell.
- Byddwn yn ymrwymo i gyfyngu cynyda GM i'r eithaf.

Sicrhau bod ynni'n cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio'n gynaliadwy

Mae Cymru wedi bod yn gynhyrchydd yn ogystal ag yn

ddefnyddiwr ynni ers amser maith. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru'n addasu i newid cynhyrchu ynni mewn modd cynaliadwy sy'n dod â manteision i bobl Cymru.

- Byddwn yn llunio Strategaeth Ynni a gaiff ei hintegreiddio i fframwaith cynllunio, ac a fydd yn cynnwys gweithredu ar ddefnyddio ynni'n effeithlon, microgynhyrchu, eco-doeon, cynhyrchu ynni adnewyddadwy trwy arallgyfeirio, biomas, gwasanaeth cynghori gwell i ddinasyddion a chymunedau, a chefnogi astudiaeth ar y morglawdd arfaethedig yn afon Hafren, gan gynnwys ei effaith amgylcheddol.
- Byddwn yn parhau i ddarparu grantiau i ddefnyddio ynni'n effeithlon, gan gynnwys elfen heb brawf modd o fewn cyd-destun Cynllun Effeithlonrwydd ar Arbedion Ynni Cenedlaethol.
- Yn dilyn cynhyrchu Map Llwybr Ynni a Strategaeth Ynni llywodraeth y Cynulliad, byddwn yn adolygu TAN 8, gan godi'r targedau ar gyfer ynni o ddeunydd adnewyddadwy, ar sail amrywiaeth o ffynonellau.
- Byddwn yn hybu gwaith ymchwil a datblygu ym maes technolegau adnewyddadwy, gan gynnwys y defnydd sydd iddynt ar y tir ac ar y môr.
- Byddwn yn datblygu rhaglen i gefnogi a hyrwyddo defnyddio

ygni'n effeithlon a chynhyrchu
ygni adnewyddadwy ar ffermydd.

- Byddwn yn ymchwilio i'r
posibilrwydd o gyflwyno cynllun
grant i drosi i gnydau ygni.

Gwella'r amgylchedd lleol

Er mwyn sicrhau amgylcheddau lleol
glân, iach a chynaliadwy y gall pobl
ymfalchïo ynddynt:

- Byddwn yn gwella'r targedau ar
gyfer ailgylchu, drwy
ddefdfwriaeth a chymorth ar
gyfer rheoli gwastraff yn well ac
mewn modd mwy cydlynol.
- Byddwn yn sefydlu menter i
gefnogi awdurdodau lleol a
grwpiau gweithredu gwirfoddol i
wella ansawdd eu hamgylchedd
lleol.
- Byddwn yn gwneud Aseidiadau
Effaith ar lechyd yn orfodol ar
gyfer ceisiadau am waith glo brig.
Bydd yn rhaid sefydlu parthau
'clustogi' hefyd, a rhoddir
pwyslais ar yr angen i gynllunwyr
a datblygwyr gydweithio'n agos â
chymunedau lleol.
- Byddwn yn ceisio cael datganoli
rheoliadau adeiladu i'r Cynulliad.
- Byddwn yn creu llwybr arfordirol i
Gymru gyfan.

9. Diwylliant Cyfoethog ac Amrywiol

Rydym yn ymhyfrydu yn y ffaith fod Cymru yn gymuned o ddiwylliannau amrywiol: yn unedig er lles pawb, yn dathlu ein hamryfal draddodiadau, yn sicrhau bod Cymru yn defnyddio ei dwy iaith genedlaethol i'w llawn botensial, ac yn tynnu pobl o bob cefndir at ei gilydd.

Rydym yn rhagweld cyfranogiad eang mewn ystod lawn o weithgareddau celfyddydol, diwylliannol a chwaraeon. Ein nod yw sicrhau bod profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf ar gael i bawb, waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw. Byddwn yn dathlu ac yn cadw treftadaeth eithriadol Cymru, boed a wnelo hi â phobl gyffredin neu ag artistiaid o fri.

Mae Cymru yn adnabyddus ym mhedwar ban byd am berfformiad ei thimau chwaraeon, a'r dynion a'r merched dawnus hynny sy'n cystadlu ar y maes rygbi, neu ar gefn beic neu mewn cadair olwyn.

Fodd bynnag, mae angen i ni gael mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol oherwydd y manteision iechyd sylweddol sy'n gysylltiedig â hynny. Ein huchelgais yw sicrhau bod Cymru'n genedl lle mae pawb yn gwneud hanner awr o ymarfer corff bum gwaith yr wythnos, fel yr argymhellir, ac yn genedl lle mae

clybiau a thimau chwaraeon yn ffynnu.

Mae'r rhaglen lywodraethu hon yn cynnwys:

- Cefnogi'r Gymraeg
- Hyrwyddo diwylliant a'r celfyddydau
- Annog chwaraeon a gweithgarwch corfforol
- Rhoi Cymru ar Lwyfan y Byd

Cefnogi'r Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, ac yn rhan o'n treftadaeth, ein hunaniaeth a'r lles cyhoeddus sy'n eiddo i ni i gyd. Byddwn yn gweithio i sicrhau y gall mwy o bobl, yn hen ac yn ifanc, ddysgu Gymraeg a'i helpu i ffynnu fel iaith fyw mewn cymunedau lu ledled Cymru.

- Byddwn yn ceisio cael mwy o hawl i ddeddfu o safbwynt yr Iaith Gymraeg. Gyda'n gilydd, byddwn yn gweithio i ehangu cwmpas y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr Iaith Gymraeg sydd wedi'i gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaethol blwyddyn gyntaf llywodraeth y Cynulliad, gyda'r nod o greu Mesur Cynulliad newydd i

gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith.

- Byddwn yn parhau â'n hymdrechion i sicrhau cytundeb ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol o fusnes yr Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn defnyddio'r profiad hwn i drafod â llywodraeth San Steffan ynghylch gwneud cais swyddogol i Gyngor y Gweinidogion i'r Gymraeg gael statws iaith gwaith a statws iaith swyddogol yn yr UE.
- Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg.
- Byddwn yn cefnogi ymgyrch dot.cym i gael statws enw parth i Gymru ar y rhynggrwyd.
- Byddwn yn parhau â gwaith ymchwil i shifftiau yn y boblogaeth er mwyn hybu cydbwysedd yn y boblogaeth ym mhob rhan o Gymru.

Hyrwyddo Diwylliant a'r Celfyddydau

Mae ein rhaglen celfyddydau a diwylliant yn ehangu'r cyfle i gymryd rhan yn yr amryfal weithgareddau sy'n perthyn i dreftadaeth, diwylliant a chwaraeon Cymru, er mwyn sicrhau nad yw incwm isel yn rhwystro pobl rhag cymryd rhan.

Byddwn yn meithrin gweithgarwch diwylliannol a chwaraeon lleol ac yn cefnogi dwy ganolfan fawr newydd. Caiff llyfrgelloedd Cymru eu gwella'n sylweddol er mwyn iddynt allu sicrhau bod pawb yn cael cyfle am ddim i weld ac i ddefnyddio deunyddiau diwylliannol, sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Yn y rhaglen lywodraethu hon

- Byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd i bawb fwynhau gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol cyfoethog Cymru, gyda mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau yn parhau.
- Byddwn yn sefydlu Theatr Genedlaethol Saesneg ei hiaith ac yn ymchwilio i'r posibilrwydd o greu Oriel Genedlaethol i Gymru.
- Gan adeiladu ar lwyddiant mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau, byddwn yn rhoi mynediad am ddim i bensiynwyr a phlant i safleoedd treftadaeth a ariennir gan y Cynulliad.
- Byddwn yn parhau i weithredu argymhellion Adolygiad Stephens ar ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru yn y dyfodol, er mwyn sicrhau dull clir o bennu polisi strategol.
- Byddwn yn rhoi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant ac i annog cydweithio er mwyn rhoi

profiadau diwylliannol o ansawdd uchel i'w cymunedau.

- Byddwn yn cefnogi cyfleoedd i gynhyrchwyr artistig o Gymru gymryd rhan ar y llwyfan rhyngwladol.
- Byddwn yn ystyried cynnwys y cysyniad o *ryddid artistig* yng nghyfraith Cymru, yn amodol ar bwerau newydd y Cynulliad.
- Byddwn yn parhau i gefnogi'r achos dros wneud Dydd Gŵyl Dewi yn Ŵyl y Banc.
- Byddwn yn cefnogi'r cynnig i sefydlu oriel ar gyfer gwaith Kyffin Williams.
- Byddwn yn sefydlu Casgliad o Hanes Pobl Cymru, wedi'i gefnogi gan staff curadurol parhaol a fydd yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu'r casgliad.
- Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol i sefydlu rhaglen bwysig a fydd yn golygu buddsoddi cyfalaf yn ein rhwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus, a'u hadnewyddu.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o wella TGCh mewn llyfrgelloedd, gan gynnwys dal i roi mynediad am ddim i'r rhyngrwyd i bawb, er mwyn sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Annog Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

Mae saith o bob deg o bobl Cymru yn gwneud llai o weithgarwch corfforol nag sydd ei angen i wneud unrhyw les i'w hiechyd. Byddwn yn annog mwy o bobl o bob oed ac o bob cefndir cymdeithasol i gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad. Rydym yn sylweddoli yn ogystal fod gweithgarwch corfforol ar wahân i chwaraeon hefyd yn fanteisiol i iechyd, ac felly byddwn yn cefnogi mwy o bobl i feicio a cherdded, ac yn annog pobl Cymru o bob cefndir i fwynhau'r amgylchedd naturiol.

Yn ystod y pedair blynedd nesaf:

- Byddwn yn parhau i ariannu'r cynlluniau sydd wedi galluogi pobl hŷn a phlant i fwynhau nofio am ddim.
- Byddwn yn ehangu'r cynllun plant yn sylweddol, drwy roi'r cyfle i *bob* plentyn ddefnyddio cyfleusterau hamdden neu chwaraeon neu byllau nofio am ddim yn ystod y penwythnos.
- Byddwn yn rhoi mwy o gefnogaeth i gyrff chwaraeon sydd am ddatblygu timau cenedlaethol i Gymru.
- Byddwn yn buddsoddi mwy o arian mewn chwaraeon yn yr ysgol ac yn hybu gweithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys parhau i gefnogi Campau'r Ddraig a chynlluniau i wella cyfranogiad

ymysg merched.

- Er mwyn helpu chwaraeon ar lawr gwlad, byddwn yn hyfforddi mwy o hyfforddwyr yn unol â'r safonau diweddaraf er mwyn sicrhau bod plant ysgol yn gwneud o leiaf bump awr o weithgarwch corfforol bob wythnos.
- Byddwn yn cyflwyno rhaglen lwyddiannus ar gyfer Gemau Ysgolion y DU yn 2009, fel rhan o'r paratodau ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 – a fydd yn llwyfan i helpu ein hathletwyr ifanc i wireddu eu llawn botensial.
- Byddwn yn hybu cyfraniad Cymru i ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, gan adeiladu ar y cyfleoedd a gynigir gan Gwpan Ryder.
- Byddwn yn gweithio gyda Supporters Direct i helpu i roi mwy o gyfle i gefnogwyr chwaraeon yng Nghymru gael lleisio'u barn ynghylch sut y caiff y clybiau eu rhedeg.
- Byddwn yn creu mwy o hwyl a chyfleoedd iachach i bobl ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn digwyddiadau cerdded, beicio a rhedeg.
- Byddwn yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth o gefn gwlad, manau gwyrdd mewn trefi a dinasoedd a'r arfordir ymysg y cyhoedd, gan gydnabod nad yw llawer o grwpiau sydd wedi'u

hallgáu yn gymdeithasol yn elwa ar y manteision cymdeithasol a diwylliannol, a'r manteision iechyd a gynigir ganddynt.

Rhoi Cymru ar Lwyfan y Byd

Wrth i'r ddogfen hon ddod at ei therfyn, trown at y Gymru yr ydym am ei chreu yn ystod y pedair blynedd nesaf - sef cenedl hyderus ac allblyg lle rydym yn cydnabod cryfder ein hunaniaeth, a'r rhan y gallwn ni ei chwarae ar lwyfan y byd. Rydym yn rhagweld Cymru'n dod yn wlad gynyddol adnabyddus a fydd yn cael ei hadnabod fwyfwy ym mhedwar ban byd. Bydd hefyd yn wlad a fydd yn fwyfwy agored i weddill y byd, ac yn ei groesawu.

Mae llawer o ddynion a menywod o Gymru eisoes yn adnabyddus am eu cyfraniadau eithriadol ym meysydd ffilm, cerddoriaeth, llenyddiaeth a diwydiant. Rhydd y pedair blynedd nesaf gyfleoedd gwych i groesawu i Gymru ddigwyddiadau a gaiff eu cynnal ar lwyfan y byd - gêm brawf Ashes yn 2009, Cwpan Ryder yn 2011. Am wythnosau cyfan ar y tro, bydd Cymru yn cael ei darlledu i ystafelloedd byw mewn gwledydd dros y byd.

Dim ond un o'r elfennau a fydd yn denu'r byd i Gymru yw chwaraeon. Mewn economi fyd-eang, y lleoedd a fydd yn ffynnu yn y dyfodol yw'r lleoedd hynny sy'n cynnig yr ymdeimlad cliraf o sefydlogrwydd, cynaliadwyedd a

hunaniaeth. Mewn oes lle mae gwybodaeth yn teithio o gwmpas y byd mewn nano-eiliadau, nid oes gwahaniaeth a yw eich desg yn Hirwaun neu Honolulu, Singapore neu Splott, atyniadau'r asedau naturiol lleol – yr arfordir a'r hinsawdd, graddfa a seilwaith diwylliannol – a fydd yn rhoi'r fantais economaidd.

Mewn byd lle gall pobl a sefydliadau fynd i unrhyw le, mae'n rhaid i'r lle hwnnw fod yn fwy na man anhysbys ar wyneb y ddaear. Rhaid iddo, yn hytrach, fod yn lle sy'n cynnig hunaniaeth hyderus ac allblyg, ac ansawdd bywyd y tu hwnt i'r gweithle sy'n cynnig synnwyr o greadigrwydd a lles: mewn geiriau eraill, y Gymru y gobeithiwn ei meithrin yn ystod oes y cytundeb hwn.

Yn ystod y pedair blynedd nesaf:

- Byddwn yn ehangu aelodaeth Cymru o gyrrff rhyngwladol priodol, a'i heffeithiolrwydd fel aelod o'r cyrrff hyn, gan gynnwys sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd.
- Byddwn yn cefnogi'r ymgyrch i Gymru fod yn genedl masnach deg.
- Byddwn yn gwella rôl Cymru mewn sefydliadau a rhwydweithiau Ewropeaidd allweddol megis Pwyllgor y Rhanbarthau, Y Rhanbarthau Ewropeaidd sydd â Phwerau

Deddfu a Chynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol.

- Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i godi proffil rhyngwladol Cymru, a sicrhau bod Cymru'n wlad y mae pobl yn dewis byw, gweithio ac astudio ynddi, ymweld â hi a chynnal gweithgareddau busnes ynddi.
- Byddwn yn parhau i gyfrannu i'r broses o gyflawni Amcanion Datblygu'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Mileniwm, gyda chefnogaeth i raglen Cymru o blaid Affrica a'i chronfa ddatblygu rhyngwladol.
- Byddwn yn gweithio'n ddyfal i sicrhau bod Cymru yn genedl masnachu rhyngwladol gref ac yn bartner gwerthfawr mewn perthnasau rhyngwladol.
- Byddwn yn mynd ati'n fwy strategol i roi Cymru ar fap y byd, gan ddod â mwy o undod i amryfal weithgareddau a chynrychiolaeth Llywodraeth y Cynulliad dros y byd, ac yn gweithio gyda buddiannau eraill Cymru y tu allan i'r llywodraeth er mwyn cael yr effaith fwyaf a'r budd mwyaf i Gymru.
- Byddwn yn datblygu ac yn hyrwyddo brand Cymru yng nghyd-destun fframwaith

diplomyddiaeth cyhoeddus a marchnata.

- Byddwn yn meithrin cysylltiad â buddiannau Cymru dramor – Cymry ar wasgar, alumni, byd busnes. Ni fanteisiwyd i'r eithaf hyd yn hyn ar y ffynhonnell hon, sydd â llawer i'w gyfrannu i'n hagenda ryngwladol.
- Byddwn yn mynd ati i weithio o fewn y Memorandwm Cydddealltwriaeth, sydd wedi'i ailddatgan, a lofnodwyd gyda Phatagonia (Talaith Chubut) ym mis Mawrth 2007.

10. TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Llywodraeth Glymblaid Plaid Lafur Cymru - Plaid Cymru: Trefniadau Llywodraethu

Egwyddorion arweiniol

Nod y pleidiau yw creu a chynnal Llywodraeth ddatganoledig Cymru, mewn partneriaeth, hyd nes i'r Cynulliad gael ei ddi-ddymu cyn etholiad 2011, a bydd ei Gweinidogion yn dal eu swyddi yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru.

Er mwyn gweithio'n effeithiol, gweithredu eu Rhaglen a chyflawni eu cydamcanion, bydd yn rhaid wrth ewyllys da, cydymddiriedaeth a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan y ddwy ochr - er mwyn hybu cydbenderfynu a chydgyfrifoldeb, ond gan barchu hunaniaeth neilltuol y ddwy blaid hefyd.

Bydd egwyddorion bod yn ddiffuant a theg yn sylfaenol i ddull y ddwy blaid o edrych ar holl agweddau'r gwaith o weithredu busnes y Llywodraeth, gan gynnwys dyrannu cyfrifoldebau, rhaglen polisiâu a deddfwriaeth y Llywodraeth, cyllideb y Llywodraeth, gweithredu busnes a datrys anghydfodau.

Ymgynghori agos rhwng Prif Weinidog Cymru, y Dirprwy Brif Weinidog, y Gweinidogion eraill ac

ACau'r ddwy blaid fydd hanfod llwyddiant y Llywodraeth.

Cydgyfrifoldeb

Mae'r pleidiau'n derbyn bod cydgyfrifoldeb yn golygu bod holl fusnes y Llywodraeth, gan gynnwys penderfyniadau, cyhoeddiadau, cynlluniau gwariant, deddfwriaeth arfaethedig a phenodiadau, yn gydgyfrifoldeb i'r Llywodraeth yn ei chyfanrwydd a bod yn rhaid ymdrin â hwy drwy ymgynghori a thrafod gymaint ag sy'n briodol er mwyn sicrhau bod yr holl Weinidogion yn eu cefnogi ar y cyd. Caiff Gweinidogion y cyfle i fynegi eu barn yn agored cyn i benderfyniadau gael eu gwneud; mae'r farn a fynegir a'r cyngor a roddir o fewn y Llywodraeth yn cael ei gadw'n breifat (yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth); mae penderfyniadau'r Llywodraeth yn rhwymo'r holl Weinidogion a rhaid iddynt eu cefnogi; a rhaid dilyn y mecanweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth a datrys anghydfodau.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Llywodraeth yn diweddarau ac yn cyhoeddi Cod Gweinidogion Cymru ac yn cynhyrchu protocol ar gyfer y Llywodraeth Glymblaid a fydd yn ymgorffori egwyddorion gwneud penderfyniadau ar y cyd a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn i hyrwyddo gweithredu busnes da,

gan ystyried yr arferion gorau mewn mannau eraill.

Portffolios

Bydd Prif Weinidog Cymru a'r Dirprwy Brif Weinidog yn cytuno ar strwythur cychwynnol y portffolios a'u dyraniad rhwng y pleidiau. O fewn y cyd-destun hwn, bydd Prif Weinidog Cymru, gyda chymeradwyaeth y Frenhines, yn penodi Gweinidogion yn ffurfiol, gan gynnwys aelodau Plaid Cymru a enwebwyd i gael eu penodi gan y Dirprwy Brif Weinidog.

Caiff portffolios ac enwau'r Gweinidogion, yn ogystal ag unrhyw newidiadau eraill, eu cyhoeddi yng nghyfarfod llawn y Cynulliad ar y cyfle cyntaf posibl.

Bydd unrhyw newidiadau i strwythur y portffolios neu eu dyraniad rhwng y pleidiau yn ystod oes y Cytundeb hwn yn cael eu cytuno rhwng y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog.

Cyn gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo ei enwebiad ar gyfer swydd y Cwnsler Cyffredinol, bydd y Prif Weinidog yn cytuno ar yr enwebiad gyda'r Dirprwy Brif Weinidog.

Swyddogaethau'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog

Mae'r pleidiau'n cytuno, yn amodol ar enwebiad y Cynulliad a chymeradwyaeth y Frenhines, y caiff Arweinydd y Blaid Lafur yn y

Cynulliad Cenedlaethol ei enwebu'n Brif Weinidog ac y caiff arweinydd Plaid Cymru ei benodi'n Ddirprwy Brif Weinidog.

Y Prif Weinidog fydd yn atebol i'r Cynulliad ar bob agwedd ar bolisïau ac ef fydd yn gyfrifol, yn y pen draw, am bob polisi. Fodd bynnag, er mwyn cael cysondeb ar draws portffolios ac er mwyn cynnwys y ddwy blaid yn llawn yn y llywodraeth glymblaid, bydd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog fel ei gilydd yn cyflwyno polisïau. Bydd trefniadau o'r fath yn cynnwys dirprwyo ar ran y Prif Weinidog yn y Cynulliad a gwneud datganiadau cyhoeddus.

Mae'n hanfodol bod y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog yn cael gwybodaeth lawn a buan ar draws holl ystod busnes y Llywodraeth, fel y gallant ymdrin ag unrhyw fater os teimlant fod hynny'n briodol. Bydd y gweithdrefnau a sefydlir ar gyfer ymdrin â busnes o fewn y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion anfon copïau o'r holl ddeunyddiau perthnasol i swyddfeydd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog.

Bydd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog yn cael cefnogaeth swyddogol, gwleidyddol ac arbenigol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.

Caiff Pwyllgor Cabinet ei ffurfio a'i aelodau fydd y Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog, y Gweinidog Busnes, a Rheolwr Busnes y blaid arall.

Cyfrifoldeb y Pwyllgor yw sicrhau bod y Llywodraeth Glymblaid yn effeithiol. Bydd y Pwyllgor yn:

- monitro sut y mae eu rhaglen yn cael ei gweithredu
- cytuno ar y rhan a fydd gan bleidiau'r bartneriaeth mewn penodiadau cyhoeddus a wneir gan y llywodraeth pan fo hynny'n briodol
- cydgysylltu'r modd y cyflwynir polisïau, mentrau a datganiadau'r Llywodraeth o fewn y Cynulliad Cenedlaethol ac yn allanol
- sicrhau bod gweithdrefnau ar waith ar gyfer cynnwys holl bleidiau'r bartneriaeth yng nghyhoeddiadau pwysicaf y Llywodraeth
- yn amodol ar gyfyngiadau allanol, cytuno ar gynrychiolaeth y Llywodraeth yn ei holl ymwneud ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru; Gweinidogion eraill Llywodraeth y DU; sefydliadau eraill yn y DU/yr UE/yn rhyngwladol.

Llywodraethu Ariannol ar y Cyd

Caiff Pwyllgor Cabinet ar Gyllid ei ffurfio a'i aelodau fydd y Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog, y Gweinidog Cyllid a llefarydd y blaid

arall ar gyllid. Un o'i gyfrifoldebau, ymysg pethau eraill, fydd cwrdd i drafod y sefyllfa gyffredinol o ran adnoddau a'r blaenoriaethau gwariant strategol cyn diwedd Gorffennaf bob blwyddyn.

Bydd y Pwyllgor Cabinet yn gyfrifol am y broses barhaus o fonitro ariannol a rheolaeth ariannol, gan gynnwys y fformiwlâu dyrannu adnoddau allweddol.

Cefnogaeth y Pleidiau i'r Llywodraeth yn y Cynulliad

Dylai'r pleidiau fod â'r nod o gytuno ar holl faterion polisi'r Llywodraeth. Mae'r ddwy blaid wedi ymrwymo i gynnal deialog adeiladol rhwng y Gweinidogion ac aelodau'r meinciau cefn er mwyn meithrin partneriaeth gref.

Bydd y ddwy blaid yn y Cynulliad yn gweithredu i gefnogi'r Llywodraeth Glymblaid ar yr holl faterion y mae'r Cytundeb hwn yn ymdrin â hwy. Er y bydd y ddwy blaid yn gwneud eu trefniadau rheoli busnes eu hunain i sicrhau bod y blaid yn cefnogi'r Llywodraeth yn effeithiol, bydd y Gweinidog Busnes a rheolwr busnes y blaid arall yn ymgynghori ac yn cydweithredu â'i gilydd i sicrhau bod rhaglen y llywodraeth yn cael ei rhoi ar waith.

Bydd y system bwyllgorau'n parhau i fod yn annibynnol, ond bydd aelodau'r ddwy blaid sy'n gwasanaethu ar yr un pwyllgor yn cydweithio ar fusnes ffurfiol a deddfwriaeth y Llywodraeth.

Rhaid i'r ddwy blaid gytuno ar faterion polisi newydd gan y Llywodraeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cytundeb hwn. Ym mhob portffolio, bydd y Gweinidogion yn cwrdd yn rheolaidd â llefarydd enwebedig neu brif aelod y meinciau cefn o'r ddwy blaid i drafod polisi. Dylai unrhyw anghytundeb gael ei gyfeirio drwy fecanweithiau mewnol y pleidiau hyd nes y bydd yr holl bleidiau'n cytuno.

Ni fydd y naill blaid na'r llall yn cefnogi cynigion ar gyfer gwariant a ddaw gerbron y Cynulliad heblaw rhai gan y Llywodraeth neu rai y mae'r Cytundeb hwn yn ymdrin â hwy oni bai eu bod wedi'u hystyried gan grwpiau'r ddwy blaid a'u bod wedi'u cymeradwyo.

Bydd y pleidiau'n cytuno ar drefniadau gwleidyddol priodol er mwyn hwyluso perthynas weithio effeithiol ar bobl lefel, gan gynnwys ACau o'r ddwy blaid nad ydynt yn Weinidogion, ac yn eu rhoi ar waith.

Mae materion a gadwyd yn ôl gan Senedd y DU, ac eithrio'r rhai y cyfeirir atynt yn y Rhaglen hon, y tu allan i gwmpas y Cytundeb hwn. Pan fo hynny'n angenrheidiol, bydd y pleidiau'n penderfynu, drwy Bwyllgor y Cabinet, sut i ymdrin â materion o'r fath pan fyddant yn codi.

Hunaniaethau Neilltuol

Mae'r ddwy blaid yn cydnabod bod angen i'r pleidiau gadw eu hunaniaethau gwleidyddol neilltuol o fewn y Llywodraeth a'r Cynulliad

Cenedlaethol. O'r herwydd, byddant yn datblygu prosesau ar gyfer:

- sicrhau y rhoddir clod priodol sy'n cydnabod cyfraniad pob plaid i bolisiâu;
- mynegi gwahanol safbwyntiau yn gyhoeddus ac yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn ffordd nad yw'n tanseilio egwyddorion cydgyfrifoldeb a bod yn ddiffuant, na hanfodion gweithio mewn partneriaeth, fel y'u nodir yn y Cytundeb hwn.

Anghydfodau

Nod y pleidiau yw y bydd y Cytundeb hwn yn parhau mewn grym hyd nes y bydd y Cynulliad yn cael ei ddiddymu cyn etholiad 2011. Er mwyn cyflawni hynny, byddant yn ymdrechu i ddatrys unrhyw anghytundebau a allai godi, yn enwedig y rheini sy'n bygwth ei barhad.

Os bydd anghydfod yn codi rhwng pleidiau'r bartneriaeth, neu Weinidogion y ddwy blaid, caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor y Cabinet er mwyn datrys y mater drwy gonsensws.

Cymeradwyo'r Cytundeb Hwn

Bydd y pleidiau'n cymeradwyo'r Cytundeb hwn yn unol â'u gweithdrefnau mewnol eu hunain. Daw'r Cytundeb i rym wedi iddo gael

ei gymeradwyo unwaith y bydd
arweinwyr pleidiau'r bartneriaeth
wedi'i lofnodi.

Llofnodwyd gan

.....

Rhodri Morgan,
Arweinydd Plaid Lafur Cymru

Llofnodwyd gan

.....

Ieuan Wyn Jones
Arweinydd Plaid Cymru